Annwyl Gyfeillion,

Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf bydd Tŷ'r Arglwyddi yn trafod y Bil Undebau Llafur, sy'n bygwth yr hawl sylfaenol i streicio. Ysgrifennaf at aelodau undeb, ar y cyd ag ysgrifenyddion cyffredinol undebau cyswllt TUC, cyn y ddadl honno.

Am y tro cyntaf, bydd cyflogwyr yn gallu torri streiciau trwy ddod â gweithwyr asiantaeth i mewn i gyflenwi dros y streicwyr. Gallai hyn arwain at broblemau mawr o ran diogelwch, arwain at wasanaethau cyhoeddus gwaeth, a bydd yn tanseilio'r hawl i streicio.

Ac mae'r bil yn cynnig cyfyngiadau anferth ar bicedu a phrotestiadau heddychlon. Bydd yn rhaid i arweinydd y piced roi ei enw i'r heddlu - gan arwain at bryderon am waharddiad ac erledigaeth. Mae llawer o gynigion eraill yn y bil hefyd - gan gynnwys ymosodiadau ar gynrychiolwyr undeb yn y sector cyhoeddus, cyfyngiadau ar sut y mae undebau yn casglu ac yn gwario'u harian a llawer yn fwy o fiwrocratiaeth ddiangen. Ac mae'r cyfan yn y bôn yn tanseilio'r hawl i streicio.

**PAM MAE HYN YN ACHOS PRYDER?**

Os bydd y bil yn cael ei basio, bydd yr hawl i streicio o dan fygythiad. Bydd hynny yn symud balans y pŵer yn y gwaith ymhellach o blaid cyflogwyr. Bydd gweithwyr cyffredin yn ei chael hi'n llawer anos herio eu penaethiaid - hyd yn oed os yw'n amlwg bod cyflogwr yn bod yn annheg neu'n afresymol. A bydd hynny'n golygu tâl ac amodau gwaeth i bawb, a staff yn ofn codi pryderon am doriadau i'r gwasanaeth a diogelwch. Mae'r llywodraeth hon yn benderfynol o gael y Bil Undebau Llafur drwy'r Senedd gyda chyn lleied o graffu â phosibl. Rhaid i ni beidio â chaniatáu hyn.

**WYTHNOS O WEITHREDU HEARTUNIONS 8-14 CHWEFROR 2016**

Rhwng 8 a 14 Chwefror 2016, bydd TUC a'n holl aelodau yn cynnal wythnos o weithredu yn erbyn y Bil Undebau Llafur. Gelwir yr wythnos yn heartunions a bydd yn arddangos y gwaith hanfodol y mae undebau llafur yn ei wneud - a dweud wrth y cyhoedd yn ehangach pam mae'r Bil Undebau Llafur yn bygwth hyn.

Ymunwch â ni wrth nodi wythnos o weithredu heartunions yn eich gweithle neu gymuned. Trwy gydol yr wythnos rydym yn gofyn i aelodau undeb adrodd eu straeon ar sut y mae cynrychiolwyr undebau wedi helpu aelodau cyffredin - a gofynnwch i unrhyw un nad ydynt yn aelod eto i ymuno.

Ddydd Mawrth 9 Chwefror, byddwn yn cynnal 'The Big Workplace Meeting', gyda Frances O'Grady a gwestai arbennig iawn yn ffrydio'n fyw i gyfarfodydd canghennau ar draws y DU i gyd. A Dydd Iau 11 Chwefror, byddwn yn gofyn i bob aelod undeb llafur i wneud rhywbeth i wneud undebau llafur yn weladwy ac yn falch yn eich cymuned. Mae'r holl wybodaeth angenrheidiol ar heartunions.org.

Nid oes lle i fygwth yr hawl i streicio ac i drefnu o fewn democratiaeth fodern. Felly gadewch i ni ddangos i'r llywodraeth a Thŷ'r Arglwyddi ein bod yn fudiad modern a bywiog, ac os fyddant yn ymosod arnom ni, byddwn yn ymateb trwy dyfu'n gryfach.

Yn gywir,

Ysgrifennydd Cyffredinol TUC

Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC